Cofnodion Cyfarfod 8 Gorffennaf 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes	
Iestyn Harris (IH)	Sian Gwenllïan	
Sarah Riley	Nerys John (NJ)	
Gwyneth Williams	Mair Bebb Jones	
George Smith	Nerys John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd; cyfeiriodd bod angen cyfethol aelod newydd i'r Cyngor. Etholwyd Mair Bebb Jones fel aelod newydd. Croesawodd y Cadeirydd,y Cyngorhydd Mair Bebb Jones i'w chyfarfod cyntaf. **Ymddiheuriadau**: Bethan Jones.	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**COFNODION**	
	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol mis Mehefin. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ond bod angen diwygio'r geiriau bolardiau pren.	
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Glan y Môr** - dywedodd y Clerc bod Adran fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd eisiau datganiad gan y Cyngor Cymuned yn datgan eu bod yn cymeradwyo'r cynllun bolardiau. Dangosodd y Cyngor eu bod yn fodlon â'r cynllun ac i'r Clerc anfon ymlaen at yr adran i ddatgan hynny.	**CLERC**
4.2	**Cais Cynllunio C14/0106/20/LL – 27 Ffordd Brynffynnon y Felinheli –** Cafwyd gwybodaeht oddi wrth y Cynghorydd Sir bod y cais wedi ei ganiatau gyda nifer o amodau.	
4.3	**Holiadur Tai** – roedd yr holiadur wedi ei ddyblygu, rhannwyd yr holiaduron rhwng yr aelodau er mwyn iddynt gael eu dosbarthu.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
5.1	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Daniel Williams ynglŷn â'r sain a'r gwaith hyd yma i'w ddatrys. Roedd wedi derbyn prisiau gan gwmnïau yn nodi byddai gwaith yn costio oddeutu £5 - £12 mil. Mae modd hefyd o wneud ceisiadau am grantiau o'r gronfa buddsoddi gymunedol, mae ffurflenni cais i fod i mewn i Gyngor Gwynedd erbyn y 30ain o Fedi 2014. Mae'r canllawiau yn datgan bod y grantiau ar gyfer gwella darpariaeth i'r gymuned. Mae modd gwneud cais i wella'r sain a chynnwys offer fidio sinema a fyddai yn galluogi cynnal nosweithiau dramâu, gigs, sinema a.y.b. Roedd y Cynghorydd Daniel Williams am symud ymlaen i wneud cais.	**DW**

6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
6.1	Cadarnhawyd gwariant mis Mehefin.	
6.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod siec a gyflwynwyd i Cefnogi fel grant byth heb gael ei gyflwyno i'r banc. Penderfynwyd atal talu'r siec hyd nes bydd esboniad wedi ei dderbyn.	
6.3	Roedd anfoneb am y Golau Stryd Cerrig yr Afon wedi ei dderbyn. Gofynnodd y Swyddog Ariannol am ganiatâd y Cyngor i anfon anfoneb am ran o'r gost at Cerrig yr Afon. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r swm oedd yn ddyladwy gan Cerrig yr Afon. Penderfynwyd y byddai Cerrig yr afon yn gyfrifol am £1000. Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc Ariannol i anfoneb Gyngor Gwynedd gael ei dalu.	**SWYDDOG ARIANNOL**
6.4	Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyflogau - heb gyfarfod hyd yma, gobeithir cyfarfod cyn cyfarfod o'r Cyngor ym mis Medi.	**IH**
7.0	**GOHEBIAETH**	
	Derbyniwyd llythyr gwybodaeth oddi wrth y National Grid.	
8.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
	Cafwyd adroddiad manwl gan Daniel Williams ar y cloc hyd yma. Roedd wedi derbyn amcan bris oddi wrth bensaer, ond yn anffodus roedd yn uchel dros ben. Cafwyd trafodaeth ar y cloc a phenderfynwyd symud ymlaen i gael pris arall gan bensaer arall.	**CLERC**
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C14/0572/20/LL Codi uchder to i greu llawr cyntaf ynghyd a chodi estyniadau cefn a darparu balconi ar y cefn – 3 Bryn y Waen Y Felinheli LL56 4QL – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
9.2	C14/0496/20/LL diwigio cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 er mwyn ail-leoli'r ddwy uned fforddiadwy oddi fewn i'r datblygiad o'r llawr gwaelod i'r trydydd llawr Bodarwy, Y Felinheli LL56 4JW- **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dywedodd y Cadeirydd bod y gwair yn parhau i gael ei dorri yn fisol ac wedi ymweliad diweddar roedd o'r farn nad oedd y fainc oedd yno yn ddigon da ar gyfer gosod cofeb i 'r diweddar Pat White. Penderfynwyd prynu mainc newydd.	**CLERC ARIANNOL**
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
11.1	Roedd cyfarfod wedi bod ar y safle yn y maes parcio ynglŷn â gosod bolard, nid oedd math o folard wedi eu benderfynu ar hyd yma ond roedd y Cynghorydd Gwyneth Williams a'r Cynghorydd Ken Brown am edrych am fath o folard a fyddai o fudd i ddatrys y sefyllfa.	**GW/KB**

	Dywedodd y Cadeirydd angen tacluso rhan o'r Lon Las lle mae'r glaswellt angen ei dorri a bod sbwriel angen ei godi.	
12.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
12.1	Dywedodd y Cynghorydd George Smith bod 24 llwybr yn y Felinheli gyda dau ohonynt yn fyr. Mae amser arolygu'r llwybrau eto a byddai yn croesawu unrhyw help i'w gwblhau. Mae tyfiant rhai o'r llwybrau angen ei dorri yn enwedig y rhai sydd o dan gyfrifoldeb Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru. Y Clerc i wneud ymholiadau a Cyngor Gwynedd.	**CLERC**
13.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Rhoddodd y Cynghorydd Sir adroddiad a'r llafar i'r aelodau ar y canlynol. Camau cyfreithiol yn gorfod cael eu cymryd ynglŷn â'r Llwybr yr Arfordir. Mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau perchennog tir lle mae'r tirlithriad ond nid perchennog y wal. Mae'r broses gyfreithiol yn parhau. Y Cynghorydd yn datgan ei bod yn ceisio sicrhau os gellir ailagor y stepiau gan fod y wal wedi bod yn cael ei monitro gan y Cyngor.Roedd y coping stones yn ddiogel. Gobeithir bydd hyn wedi ei ddatrys cyn bod hir. Mae prosiect rhwng Swyddogion y Cyngor a phlant yr ysgol i wneud graffiti gyda gwlân ar ffens y cae chwarae ar y traeth. Mae hawl cynllunio wedi ei wrthod ar yr Halfway ac mae bellach ar werth fel eiddo masnachol. Mae rhai o fewn y gymuned yn meddwl dyliai'r Halfway gael ei ddatblygu ar gyfer y Gymuned, efallai bydd modd i gael sesiwn "brain storming" ar syniadau beth i wneud a'r safle	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd.	
15.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Bydda angen dadansoddi data'r holiadur. Cyfarfod i'w drefnu rhwng yr aelodau i wneud hyn	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:15 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	